



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gofal Iechyd Parhaus y GIG ar Gyfer Oedolion yng Nghymru

Beth mae derbyn gwasanaethau GIP a ariennir yn ei olygu i chi

Mehefin 2014



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 1 4734 1507 2

ISBN digidol 978 1 4734 1506 5

© Hawlfraint y Goron 2014

WG22137

Beth yw gofal iechyd parhaus y GIG?

Gofal iechyd parhaus y GIG (a elwir hefyd yn GIP) yw'r enw a roddir i un neu fwy o wasanaethau sy'n cael eu trefnu a'u hariannu yn gyfan gwbl gan y GIG ar gyfer pobl sydd wedi'u hasesu fel rhai sydd ag 'angen iechyd sylfaenol' (caiff hyn ei egluro yn nes ymlaen).

Gallwch dderbyn GIP mewn unrhyw leoliad gan gynnwys yn eich cartref eich hun neu mewn cartref gofal.

Yn eich cartref eich hun, golyga hyn y bydd y GIG yn talu am ofal iechyd (er enghraifft, gwasanaethau gan nyrs gymunedol neu therapydd arbenigol) a gofal cymdeithasol, ond nid yw'n cynnwys costau bwyd, llety na chymorth cyffredinol yn y cartref.

Mewn cartref gofal, os ydych yn gymwys i gael GIP, mae'r GIG yn talu cyfanswm ffioedd eich cartref gofal.

Ariennir GIP gan y GIG, yn wahanol i help gwasanaethau cymdeithasol, y gellir codi ffi amdano yn dibynnu ar eich incwm, eich cynilion a'ch asedau cyfalaf.

Pam ydw i'n derbyn pecyn GIP?

Mae asesiadau gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol wedi dangos mai angen iechyd yw'ch angen sylfaenol.

Mae hyn yn golygu eich bod chi'n gymwys i gael pecyn GIP fel sy'n cael ei ddisgrifio uchod.

Bydd y Bwrdd Iechyd Lleol wedi gweithio gyda chi i gytuno ar becyn gofal ac mae'r gwasanaethau hynny ar waith bellach.

Pam mae angen adolygu fy mhecyn GIP?

Mae anghenion pobl yn gallu newid. Rhaid i'r GIG sicrhau bod y gwasanaethau mae'n eu darparu neu'n talu amdanynt yn parhau i fod yn addas i'ch anghenion.

Yr ail reswm dros yr adolygiad yw penderfynu a oes gennych chi angen iechyd sylfaenol o hyd ac yn gymwys i gael pecyn GIP o hyd.

Gall pobl dderbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG ar wahanol adegau o'u bywydau, yn dibynnu ar eu hanghenion ar y pryd.

Er enghraifft, er efallai fod angen llawer o gymorth a chefnogaeth ar rywun oherwydd salwch neu gyflwr, efallai na fydd yn cael ei asesu fel rhywun sydd ag angen gofal iechyd sylfaenol. Gall hyn fod oherwydd ei fod yn sefydlog a bod modd diwallu ei anghenion drwy gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a drefnir ar y cyd gartref neu mewn cartref nyrsio gyda Gofal Nyrsio a Ariennir.

Beth sy'n digwydd yn fy adolygiad?

Bydd yr adolygiad yn dilyn yr un drefn â'ch asesiad cyntaf ar gyfer GIP.

Bydd y tîm sy'n gofalu amdanoch yn gweithio gyda chi i asesu'ch anghenion.

Byddwch chi, a/neu'ch teulu neu eiriolwr os mai dyna yw'ch dymuniad, yn cael gwahoddiad i gyfarfod i drafod y canlynol:

- Ydy'r gwasanaethau iawn yn cael eu darparu i ddiwallu'ch anghenion?
- Oes angen addasu'r gwasanaethau hynny?
- Oes gennych chi angen 'iechyd sylfaenol' o hyd?

Fel yn achos yr asesiad cyntaf, dylech ddisgwyl:

- Cael gwybod am bopeth sy'n digwydd;
- Cael cyfle i gyflwyno'ch safbwyntiau chi;
- Cael atebion i'ch cwestiynau;
- Cael esboniad, wyneb yn wyneb ac yn ysgrifenedig, o'r penderfyniadau a wnaed a'r rhesymau amdanynt.

Beth fydd yn digwydd os ydw i'n dal i fod yn gymwys i gael GIP?

Byddwch chi'n parhau i gael eich pecyn o wasanaethau, sy'n cael eu trefnu a'u hariannu'n gyfan gwbl gan y GIG.

Gallai'r tîm benderfynu bod angen gwneud ambell newid i'r gwasanaethau fel eu bod yn parhau i ddiwallu'ch anghenion yn llawn. Bydd eich cydgysylltydd gofal yn esbonio unrhyw newidiadau ac yn eu trafod â chi.

Beth fydd yn digwydd os nad ydwd i'n gymwys i gael GIP mwyach?

Os ydych chi'n derbyn gwasanaethau yn eich cartref eich hun, ond nad ydych chi'n gymwys i gael GIP mwyach, gall eich anghenion gael eu diwallu gan y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol ar y cyd neu gan y gwasanaethau cymdeithasol yn unig.

Bydd unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y GIG yn parhau i fod yn ddi-dâl.

Gellir codi tâl am unrhyw gymorth a gewch gan y gwasanaethau cymdeithasol. Bydd faint sydd angen i chi ei dalu yn dibynnu ar eich incwm, eich cynilion a'ch asedau cyfalaf.

Mae hyn yn wir hefyd os ydych chi'n cael eich gofal mewn cartref nyrsio, er yn yr achos hwn, bydd y GIG yn gwneud taliad tuag at eich anghenion nyrsio drwy 'Gofal Nyrsio a Ariennir'.

Bydd goblygiadau ariannol eich adolygiad yn cael eu hegluro'n glir i chi, wyneb yn wyneb ac yn ysgrifenedig, gan nodi pwy fydd yn talu am beth.

Pa mor aml fydd fy ngwasanaethau GIP a ariennir yn cael eu hadolygu?

Gallwch ddisgwyl yr adolygiad cyntaf o'ch anghenion a gwasanaethau GIP o fewn 3 mis i chi ddechrau derbyn y gwasanaethau.

Wedi hynny, bydd adolygiad yn cael ei gynnal o leiaf unwaith y flwyddyn, neu'n amlach os oes angen.

Os bydd gennych chi, eich teulu, neu bobl eraill sy'n darparu'ch gofal unrhyw bryderon rhwng adolygiadau wedi'u cynllunio, cysylltwch â'ch cydgysylltydd gofal.

Eich Cydgysylltydd Gofal yw

Gallwch gysylltu ag ef/hi drwy:

Ffôn:

E-bost:

Y Broses GIP

Mae cael eich derbyn i'r ysbyty neu amgylchiadau eraill yn awgrymu y gallai fod angen gofal a chymorth tymor hirach arnoch.

Byddwch yn cael cydgysylltydd gofal penodol a fydd yn goruchwyllo'r broses, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ac yn ateb eich cwestiynau.

Mae'n bosibl y cewch eich trosglwyddo i raglen 'camu i lawr' wrth i chi gael eich traed tanoch a chael asesiad i ganfod pa ofal a chymorth sydd eu hangen arnoch.

Bydd eich cydgysylltydd gofal yn gofyn am eich caniatâd ac yn dechrau trefnu'r asesiad. Bydd hyn yn cynnwys nifer o aelodau'r tîm sy'n gofalu amdanoch.

Bydd eich cydgysylltydd gofal yn egluro'r broses i chi ac yn rhoi'r Daflen Gwybodaeth i'r Cyhoedd i chi.

Mae'n bosibl y bydd angen i aelodau'r tîm gydweithio â chi i gynnal asesiadau ychwanegol i sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Bydd eich cydgysylltydd gofal yn eich gwahodd i gyfarfod â'r tîm er mwyn trafod eich anghenion a phenderfynu a ydych yn gymwys i gael gwasanaethau GIP a ariennir. Bydd yn rhoi taflen arall i chi, sef 'Eich paratoi ar gyfer cyfarfod cymhwysedd GIP'.

Ar ôl y cyfarfod gwneir argymhelliad ynghylch a ydych chi'n gymwys i gael GIP ai peidio. Byddwch yn cael eglurhad ysgrifenedig o'r rhesymau am y penderfyniad hwn.

Bydd eich cydgysylltydd gofal yn cysylltu â chi ychydig ddyddiau'n ddiweddarach i drafod beth ddigwyddodd yn y cyfarfod, beth fydd yn digwydd nesaf a beth i'w wneud os byddwch yn anfodlon â'r canlyniad.

Cytunir â chi ar y gwasanaethau fydd eu hangen arnoch a chaiff y trefniadau eu gwneud. Gallwch ddisgwyl i'ch anghenion gael eu hadolygu o fewn 3 mis i'r gwasanaethau gychwyn ac o leiaf unwaith y flwyddyn wedi hynny.



Rydych chi yma